MORRIS, DAVID WILLIAM ('Marmora'; 1823 - 1914), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: David William Morris
Ffugenw: Marmora
Dyddiad geni: 1823
Dyddiad marw: 1914
Rhiant: William Morris
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd 9 Hydref 1823 yn Llansteffan, Sir Gaerfyrddin. Magwyd ef yn Llanelli a'i brentisio'n grydd. Er bod ei dad, William Morris, yn bregethwr Methodist, mynnodd ' Marmora ' gael ei fedyddio (1845) yng Nghwmafon. Aeth i Goleg Hwlffordd yn 1847. Ordeiniwyd ef yn Bond Street, Lerpwl, 10 Tachwedd 1850. Ymhen chwech wythnos aeth i Gasmael a Beulah. Bu wedyn yn y Berthlwyd, Cwmtwrch, ac Ystradgynlais, Cwmsarnddu, Hafod (Abertawe), lle'r adeiladodd gapel Philadelphia, Pontestyll, a Phontsenni, Scranton (U.D.A.), Cwmsarnddu am yr eiltro, a Tylorville (U.D.A.) 1879-86. Treuliodd weddill ei oes yn Abertawe. Un lled od ydoedd yn ei gwmni. Gweddïai â'i lygaid ar agor, a phregethai weithiau â'i lygaid yng nghau. Ysgrifennai i'r cylchgronau (e.e. *Seren Gomer*, *Y Bedyddiwr*, a *Baner America*) o ddyddiau ei goleg hyd y diwedd ymron, a chipiodd wobrau lawer am draethodau. Cyhoeddodd *Blynyddoedd Boreuol Moses*, 1851; *Maesydd y Myfyriwr*; *Bwrdd y Babell*, 1870; *Rhiniog y Cysegr*; *Tir Emanuel*; *Athrofa Iachawdwriaeth*. Bu farw 12 Medi 1914.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Y Geninen, Mawrth 1915, 54

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1936, 50

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360899

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu